| | |
|---|---|
| **CYFARFOD** | **Pwyllgor Iaith** |
| **DYDDIAD** | **29 Ebrill 2021** |
| **TEITL** | **Adroddiad Adran Economi a Chymuned** |
| **PWRPAS** | **Cyflwyno gwybodaeth am gyfraniad yr Adran i'r Polisi Iaith** |
| **AWDUR** | **Sioned E Williams, Pennaeth Economi a Chymuned** |

**1 CEFNDIR**

1.1 Paratowyd yr adroddiad hwn mewn ymateb i gais y Pwyllgor Iaith am wybodaeth am gyfraniad yr Adran Economi a Chymuned i bolisi Iaith Cyngor Gwynedd.

1.2 Mae amcanion Polisi Iaith Cyngor Gwynedd wedi eu gwreiddio yn rôl Gwasanaethau'r Adran; mae'n gyfrwng naturiol i gyfathrebu yn fewnol ac yn allanol gyda chymunedau, partneriaid a chwsmeriaid a hefyd yn adnodd pwysig sydd yn cael ei hyrwyddo ymhob cyfle posib mewn ymdrech i gynyddu'r defnydd o'r Iaith Gymraeg o fewn Gwynedd ac yn ehangach.

1.3 Mae 97% o staff Adran Economi a Chymuned wedi cyrraedd dynodiad iaith eu swydd. Golygai hyn bod sylfaen gadarn yn ei lle i alluogi gwasanaethau i feddwl am syniadau newydd i hybu a hyrwyddo'r iaith. Nifer bychan o staff sydd ddim yn cwrdd â'r dynodiad ac mae cymorth ar gael i'w cefnogi i ddatblygu eu sgiliau.

1.4 Mae staff newydd yn gwerthfawrogi'r anogaeth a'r cyfle i ddysgu a gwella eu sgiliau ieithyddol. Gwelwyd enghraifft dda o hyn yn ystod 2020 lle bu i aelod newydd o staff fanteisio ar y cymorth i wella ei sgiliau ieithyddol gan adrodd ei fod wedi cael budd personol o'r profiad yn ogystal i weld manteision i'w swydd.

1.5 Mae cynllun Busnes yr Adran ar gyfer 2021/22 wedi cael ei atodi https://www.gwynedd.llyw.cymru/cy/Cyngor/Dogfennau-Cyngor/Adrannaur-Cyngor/Cynlluniau-adran-2021/2021-22-Cynllun-Adran-Economi-a-Chymuned-TERFYNOL.pdf i atgoffa'r Pwyllgor am ystod y gwasanaethau sydd o fewn yr Adran. Mae'r tabl canlynol wedi ei baratoi mewn ymateb i gwestiynau penodol y Pwyllgor ac enghreifftiau o wasanaethau'r Adran hoffwn eu hamlygu wedi cael eu cynnwys.

## 2. YMATEB I GWESTIYNAU'R PWYLLGOR

| **Mater yr hoffai'r aelodau ei drafod :** | **Cwestiwn 1:** |
|---|---|
| Hybu a hyrwyddo - Sut ydym ni'n mynd y tu hwnt i ddarparu yn ddwyieithog i fod yn cynyddu'r cyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg yn y gymuned, i gyfrannu at y targed cenedlaethol o greu Miliwn o siaradwyr, ac at y nod Llesiant o sicrhau bod pobl Gwynedd yn "Cael byw mewn cymdeithas naturiol Gymraeg"? | Allwch chi amlygu unrhyw brosiectau o fewn eich adran sydd yn cyfrannu tuag at un o flaenoriaethau strategaeth iaith y Cyngor, sef Cynllun Hybu'r Gymraeg yng Ngwynedd? |

Ystyriaf fod y canlynol yn enghreifftiau da yn yr Adran o brosiectau a gwasanaethau sydd wedi cyfrannu dros y flwyddyn ddiwethaf at Gynllun Hybu'r Gymraeg yng Ngwynedd:

**Gwasanaeth Datblygu Economaidd – Rhaglen Arfor**

Dros y 2 flynedd ddiwethaf mae'r Adran wedi arwain Rhaglen Arfor yng Ngwynedd ac ar draws Rhanbarth Gorllewin Cymru, gan gynnwys hefyd Môn, Ceredigion a Sir Gaerfyrddin. Nod Arfor yw datblygu ymyraethau economaidd a fydd yn eu tro yn cael effaith gadarnhaol ar niferoedd siaradwyr a hyfywdra'r Gymraeg. Mae'r rhesymeg yn seiliedig ar ddealltwriaeth o 'broblem' sydd yn ddigon cyfarwydd i'r rheini sy'n ymddiddori mewn polisi iaith a hanes yr iaith Gymraeg, sef fod dyfodol yr iaith, ei defnydd a'i chynaliadwyedd yn y cadarnleoedd traddodiadol o dan fygythiad. Digon cyfarwydd yw'r esboniad am hyn hefyd. Y ddadl yw bod pobl ifanc yn gadael cadarnleoedd y Gymraeg er mwyn canfod gwell swyddi a chyflogaeth yn ninasoedd y De, Lloegr a thu hwnt. Bwriad Rhaglen Arfor felly yw cefnogi creu mwy a gwell swyddi yng nghadarnleoedd y Gymraeg a thrwy hynny cefnogi parhad a thwf y Gymraeg. Clustnodwyd cyllideb o £2m ar gyfer y cyfnod 2019-2021 ac mae pecyn o brosiectau wedi cael eu treialu dros gyfnod o 2 flynedd. Mae'r prosiectau yng Ngwynedd wedi cynnwys Llwyddo'n Lleol, Pecyn Cymorth i Fentro, Her Cymunedau Mentrus a Gofod Ffiws oedd gyda'i gilydd yn fuddsoddiad o bron i £465,000 dros y cyfnod. Yn ogystal, gweithredwyd prosiect Bwrlwm Busnes Arfor ar draws y 4 Sir er mwyn hyrwyddo balchder busnesau a'u gweithwyr yn yr Iaith Gymraeg gydag ymrwymiad pellach o £40,000. <https://bwrlwmarfor.cymru>

Mae gwariant yn y prosiectau hyn bellach wedi dod i ben ac mae effaith y buddsoddiad yn y broses o gael ei werthuso. Mae disgwyl i'r adroddiadau fod wedi cael eu paratoi erbyn mis Mai ac efallai byddai'n fuddiol rhannu gasgliadau'r gwerthusiad yma a'r dadansoddiad o berthynas yr iaith Gymraeg a'r economi hefo'r Pwyllgor maes o law.

**Gwasanaeth Twristiaeth, Marchnata a Digwyddiadau**

Mae'r maes hwn yn cael ei gysylltu yn aml gyda thensiynau a bygythiadau i'r iaith Gymraeg, ond mae'r gwasanaeth yn ymwybodol iawn o'r heriau a'r angen i fod yn rhagweithiol mewn ymateb. Mae'r tîm wedi creu ac arwain prosiect rhanbarthol 'Cenedl mewn Can' sydd wedi hyrwyddo'r iaith Gymraeg fel adnodd cadarnhaol i ymwelwyr ac i'r economi ymweld. Bwriad y prosiect oedd creu rhestr o 10 cân i gynrychioli iaith a diwylliant Cymreig ar ei orau. Bydd yn y pen draw yn cael ei ddefnyddio fel cynnwys marchnata i godi ymwybyddiaeth o gynnyrch twristiaeth Cymru yn rhyngwladol. Yn dilyn pleidlais gyhoeddus i ddewis 10 can bu i'r cerddor Osian Williams gydweithio gyda'r artistiaid Cleif Harpwood, Bryn Fôn, Eädyth a Mared Williams a phobl ifanc o Gymru, Dubai, Patagonia a Lloegr i recordio fersiwn newydd o'r gan Ysbryd y Nos. Lansiwyd y fideo ar 21 Chwefror 2021 i ddathlu dydd Mamiaith Ryngwladol UNESCO a chodi ymwybyddiaeth ryngwladol o'r iaith Gymraeg. Mae gwybodaeth bellach wedi ei atodi yma :

www.cenedlmewncan.cymru <http://www.cenedlmewncan.cymru>

**Gwasanaeth Llyfrgell**

Mae'r data yn dangos yn glir fod cwsmeriaid y Gwasanaeth Llyfrgell yn gwerthfawrogi'r gwasanaeth, sydd wrth gwrs yn wasanaeth mwy na llyfrau bellach. Mae cwsmeriaid yn aml iawn yn datblygu perthynas gyda'r staff sydd yn gallu chwarae rôl bwysig fel llysgenhadon i'r Cyngor, y gymuned a'i diwylliant. Mae staff y Gwasanaeth Llyfrgelloedd gyda rôl amlwg i hyrwyddo'r iaith Gymraeg. Er bod hyn wedi bod yn digwydd yn naturiol dros gyfnod o flynyddoedd, mae cydnabod y cyfraniad yma a ffurfioli'r cyfle i staff roi anogaeth i'w cwsmeriaid fentro i ddysgu'r iaith yn gyfle gwych i'r Cyngor fod yn hyrwyddo'r iaith a chyfoethogi bywydau pobl Gwynedd. Mae gan y Gwasanaeth adnoddau dysgu mewn llyfrgelloedd ac mae rhaglen o weithgareddau yn cael eu cynnal drwy'r flwyddyn. Mae sawl esiampl o gwsmeriaid yn gwerthfawrogi'r cyfle i gael eu cyflwyno i'r iaith yn anffurfiol ac i gael ymarfer eu sgiliau ieithyddol mewn awyrgylch sydd yn groesawgar a chefnogol. Amgaeaf gopi o ohebiaeth a dderbyniwyd yn ddiweddar isod yn cyfeirio at yr union bwynt yma:

My Experience of Gwynedd Library system.
Dear Madam,

I am writing to tell you personally of my experience of the library system in Gwynedd.
I moved to Bala last year prior to lockdown. I joined the library in Bala and found the librarian very welcoming, knowledgeable and keen to help a 'newcomer ' to the area explaining how the system worked etc - it made me instantly feel part of the community and was much appreciated.

Lockdown came in and I used the Borrow Box system which is very user friendly and kept me supplied with all my favourite authors. I like the way you can reserve any book and know exactly when you would be able to access it.....................................................................................

All of these experiences were not only made possible by the library system and staff involved but were greatly enhanced by their approach, professionalism and great interpersonal skills.

Finally I am trying to learn Welsh as I intend to fully partake in and of the local community and on 'trying' out some welsh phrases and sentences, was greatly encouraged to continue my learning journey by both ladies - which has made my determination even greater.

Very often people write to complain, but I feel a balance is required - hence my letter to compliment Gwynedd on their great library service and all the people involved in providing this service to the public. I sincerely hope you pass my thoughts and thanks onto the relevant members of your organisation who embody your vision to provide the best of services to the people of Gwynedd.'

Yn ogystal i'r anogaeth gan staff i ddysgu, mae'r Gwasanaeth Llyfrgell hefyd yn hyrwyddo'r iaith drwy ddosbarthu llyfrau a phecynnau i blant a'u teuluoedd i gael eu cyflwyno i'r iaith a hefyd i fwynhau defnyddio'r iaith Gymraeg yn y cartref. Mae Dechrau Da yn gynllun cenedlaethol sy'n rhoi llyfrau i fabanod, mae Sach Stori yn gynllun benthyg llyfr / tegan / gemau i blant a Stori a Chan yn gynllun i blant o dan 5 oed a'u rhieni yn ystod tymor ysgol. Mae mwy o wybodaeth ar gael yma:

https://www.gwynedd.llyw.cymru/cy/Trigolion/Llyfrgelloedd-ac-archifau/Gwasanaeth-i-blant-a-phobl-ifanc.aspx

**Gwasanaeth Amgueddfeydd a'r Celfyddydau a'r Gwasanaeth Archifau**

Mae gweithgareddau'r Gwasanaeth Amgueddfeydd a'r Celfyddydau a'r Gwasanaeth Archifau'n hyrwyddo'r defnydd o'r Gymraeg yn naturiol o fewn ein cymunedau. Yn ystod y cyfnod clo, bu i Celfyddydau Cymunedol Gwynedd ddarparu nifer o weithgareddau Cymraeg i hybu llesiant pobl Gwynedd trwy'r Celfyddydau. Mae Llyfr Lloffion ar gyfer yr holl weithgareddau ar gael yma.

Mae hunaniaeth a'r Gymraeg a dweud ei stori hefyd yn greiddiol i weledigaeth Storiel ar gyfer cyfleu pwysigrwydd iaith a hunaniaith Gwynedd ac mae Amgueddfa Lloyd George yn cynnig golwg ar hanes ddifyr yr unig Brif Weinidog Cymraeg ei iaith a welodd y Deyrnas Unedig ac yn ceisio cyfleu llwyddiant Cymro Cymraeg o Wynedd.

Mae'r Gwasanaeth Addysg Archifau ac Amgueddfeydd yn darparu deunydd a gweithgareddau i ysgolion ar draws Gwynedd er mwyn iddynt ddeall eu bröydd a phwysigrwydd y Gymraeg a hunaniaith lleol.

| **Mater yr hoffai'r aelodau ei drafod:** | **Cwestiwn 2:** |
|---|---|
| Allanoli gwaith a gosod cytundebau trydydd parti -<br>Sut ydym ni'n sicrhau bod safon y gwasanaeth dwyieithog yn cael ei gynnal wrth allanoli a gosod cytundebau? | Os yw'r adran yn gosod gwaith yn allanol ar gytundeb, allwch chi gyfeirio at unrhyw arfer da, naill ai wrth osod amodau neu wrth fonitro i sicrhau cydymffurfiaeth efo amodau ieithyddol? |

Hoffwn dynnu sylw'r Pwyllgor yn benodol at y cytundebau canlynol:

**Cytundeb Byw'n Iach**

Rhoddwyd cryn sylw i'r Iaith yn y cytundeb rhwng Cyngor Gwynedd a Chwmni Byw'n Iach wrth drosglwyddo asedau hamdden y Cyngor i'r Cwmni yn 2019. Gosodwyd cymalau yn y cytundeb cyfreithiol er mwyn sicrhau fod safonau Iaith Cyngor Gwynedd yn parhau i'r dyfodol. Roedd y gwasanaeth hamdden yn faes sydd yn hanesyddol wedi cael trafferthion recriwtio siaradwyr Cymraeg mewn rhai ardaloedd. Ond roedd Cwmni Byw'n Iach yn gwbl gefnogol i adeiladu ar y rhaglen waith oedd yn ei lle er mwyn gwella trefniadau hyfforddi a recriwtio fel bod cynnydd yn y nifer staff oedd yn cwrdd â dynodiadau eu swyddi ac yn fwy pwysig yn defnyddio'r iaith gyda defnyddwyr y gwasanaeth. Dyma sydd wedi ei gynnwys yn y cytundeb cyfreithiol:

POLISÏAU'R CYNGOR Y MAE'N RHAID I'R CONTRACTWR GYDYMFFURFIO Â NHW NEU GAEL POLISÏAU CYFATEBOL

Polisi'r Iaith Gymraeg

14.2 Bydd y Contractwr yn:-

14.2.1 cydymffurfio â pholisïau'r Cyngor fel y'u rhestrir yn Rhan 1 Atodlen 12 (fel y'i diweddarir o bryd i'w gilydd) neu bydd ganddo'i bolisïau ei hun sydd yr un fath o ran eu sylwedd â'r polisïau hynny ac eithrio i'r graddau bod newidiadau eu hangen i ystyried gwahaniaethau rhwng strwythurau corfforaethol a rheolaethol y Contractwr a rhai'r Cyngor a'u bod wedi'u cymeradwyo, yn ysgrifenedig, ymlaen llaw gan y Cyngor

Mae trefniadau mewn lle i fonitro perfformiad Cwmni Byw'n Iach yn chwarterol ac mae dynodiadau iaith staff a hyfforddiant yn faterion sydd yn cael sylw. Yn anffodus nid ydi'r perfformiad dros y flwyddyn ddiwethaf yn gosod sail gymharol gyda blynyddoedd blaenorol gan fod

y Canolfannau wedi bod ar gau am gyfnodau helaeth yn sgil COVID. Ond bydd y sesiynau monitro yn parhau a bydd Cyngor Gwynedd yn craffu perfformiad y Cwmni yn y maes yma.

**Arfor**

Treuliwyd cryn dipyn o amser yn cynllunio cymalau i'w gosod yn y cynigion grant i drydydd parti o fewn rhaglen Arfor er mwyn sicrhau fod Cyngor Gwynedd yn gallu monitro effaith y buddsoddiad ar yr economi a hefyd ar yr iaith Gymraeg dros gyfnod o amser. Datblygwyd y cymalau ar y cyd â'r uned Iaith ac maen fwriad eu defnyddio fel sail ar gyfer cynnig grantiau i drydydd parti mewn gwahanol gronfeydd yn y dyfodol. Gweler copi o'r telerau ac amodau yma:

**<u>Ymrwymiadau Iaith</u>**

Mae Polisi Iaith Cyngor Gwynedd yn nodi y defnyddir unrhyw grant a ddyfernir gan y Cyngor fel modd o hyrwyddo defnydd o'r Gymraeg o fewn y sir.

Disgwylir felly i unrhyw unigolyn, grŵp neu fusnes sydd yn derbyn nawdd ariannol – ar ffurf grant neu fenthyciad – wneud pob ymdrech i ddefnyddio'r Gymraeg yn eu gwaith a'u gweithgareddau ac i sicrhau bod gwasanaethau dwyieithog ar gael i'r cyhoedd.

Wrth weithredu'r cytundeb / derbyn y grant bydd disgwyl i chi weithredu mewn modd sydd yn cyd-fynd efo'r egwyddor uchod ac ymrwymiadau'r Cyngor dan Fesur y Gymraeg (Cymru) 2011. Yn ymarferol, bydd hyn yn cynnwys y canlynol:-

a) Sicrhau bod unrhyw ddeunydd ysgrifenedig a gynhyrchir fod yn ddwyieithog.
b) Sicrhau bod unrhyw arwyddion a osodir fod yn ddwyieithog.
c) Sicrhau bod unrhyw hyfforddiant neu ddigwyddiadau cyhoeddus yn cael eu cynnal yn ddwyieithog.

Gall y Cyngor ofyn am eglurhad o sut mae'r unigolyn, grŵp neu fusnes yn bwriadu mynd ati i gynnig gwasanaethau dwyieithog, ac i sicrhau nad yw'r Gymraeg yn cael ei thrin yn llai ffafriol na'r Saesneg a byddwn yn monitro cydymffurfiaeth â'r elfennau penodol a nodir uchod.

At hyn, yn unol ag ymrwymiad y Cyngor i hyrwyddo'r iaith Gymraeg, byddwn yn croesawu dymuniad cwmni i gynhyrchu unrhyw ddeunyddiau, arwyddion neu gynnal digwyddiad yn y Gymraeg yn unig os bydd natur y gweithgarwch neu gynulleidfa darged yn awgrymu bod hynny yn briodol. Gall y Cyngor hefyd gyfeirio unigolion, grwpiau neu fusnesau at bartneriaid neu ffynonellau gwybodaeth a chyngor eraill er mwyn cynnig cefnogaeth i gynyddu defnydd o'r Gymraeg.
Disgwylir i'r Grantî gyd weithio gyda Cymraeg Byd Busnes (https://llyw.cymru/y-gymraeg), sef Rhaglen Llywodraeth Cymru sy'n annog busnesau i ddefnyddio'r Gymraeg.

| **Mater yr hoffai'r aelodau ei drafod:** | **Cwestiwn 3:** |
|---|---|
| <u>Gweithredu'n ddwyieithog -</u><br>Sut ydym ni'n llwyddo wrth weithredu ar ofynion y Polisi Iaith a Safonau'r Gymraeg? | Oes yna unrhyw rwystrau i'ch gallu fel adran i gynnig gwasanaeth llawn yn y Gymraeg?<br>Gall hyn fod ar draws yr adran neu mewn gwasanaethau penodol. |

Dyma rai rhwystrau sydd wedi cael eu hadnabod o fewn yr Adran:

- Recriwtio - Gwelwyd problemau recriwtio mewn rhai meysydd penodol fel maes hamdden a morwrol yn y gorffennol. Mae'r sefyllfa mewn rhai ardaloedd, fel de Meirionnydd, yn parhau i fod yn heriol. Ond gyda chryn dipyn o anogaeth a disgwyliad o fod yn mynd ar hyfforddiant i ddatblygu sgiliau o'r cychwyn mae'r canran o staff newydd yn cwrdd a'u dynodiadau iaith wedi gwella yn sylweddol.

- Cyfarfodydd - Mae cydweithio gyda phartneriaid yn gallu bod yn heriol ar adegau hefyd. Nid y cyfarfodydd ffurfiol cyhoeddus, ond y rhai llai gyda swyddogion ar lefel rhanbarthol neu genedlaethol. Mae hyn yn ymddangos i fod yn brofiad cyffredin ar draws gwasanaethau'r Adran ac nid wedi ei gyfyngu i'r maes busnes a thwristiaeth yn unig lle amlygwyd y mater yn wreiddiol. Mae Zoom wedi bod yn gyfrwng i wella'r cynnig a'r sefyllfa, ond mae nifer y cyfarfodydd 'gwaith' lle mae diwylliant gwahanol yn ei gwneud yn anodd i swyddogion lwyddo i ddatblygu perthynas waith a dylanwadu ar drafodaethau ar ran Gwynedd yr un pryd.

- Cyfathrebu Llywodraeth Prydain - Gan fydd Cyngor Gwynedd yn y dyfodol yn ymgeisio am arian gan Lywodraeth Prydain yn uniongyrchol yn hytrach na Llywodraeth Cymru, mae'r sylw eisoes wedi cael ei wneud y bydd disgwyl i'r cyfathrebu fod drwy gyfrwng y Gymraeg a gyda chyfleoedd i gyflwyno ceisiadau trwy gyfrwng y Gymraeg.

| **Mater yr hoffai'r aelodau ei drafod:** | **Cwestiwn 4:** |
|---|---|
| Datblygu cyfleoedd newydd | Oes gennych chi syniadau am ffyrdd newydd y gallem ni fod yn hybu'r Gymraeg o fewn cymunedau'r sir – naill ai yn eich gwasanaethau eich hun neu drwy gydweithio gydag eraill? |

Amlygaf isod rai meysydd lle gwelaf gyfleoedd i'r Adran wneud mwy o gyfraniad i hyrwyddo'r Gymraeg yng Ngwynedd:

- **Parhad Arfor -** Mae rhaglen Arfor wedi rhoi dyfodol yr Iaith Gymraeg yn ganolog i'w ymdrech i gryfhau cymunedau a'r economi. Roedd y profiad o gydweithio gyda phartneriaid yn hynod fuddiol a diddorol; i ddysgu lle mae ymyraethau gwahanol wedi gallu gwneud gwahaniaeth i ymateb ac ymddygiad busnesau a chymunedau. Dyma'r tro cyntaf i'r pedwar Awdurdod Lleol gydweithio hefo Adran Iaith Gymraeg ac Adran Economi Llywodraeth Cymru i ganolbwyntio ar y berthynas rhwng iaith a gwaith. Er bod y bartneriaeth wedi cymryd amser ar y dechrau i ddeall y maes gwaith a'r cyfleoedd posib, erbyn diwedd y cyfnod gwelwyd fod y berthynas hon yn bwysig yn creu symudiad i hyrwyddo'r iaith i'r dyfodol.

- **Mentrau Iaith** - Nid ydi'r Adran wedi cael perthynas agos iawn gyda Hunaniaeth, ond yn hytrach wedi cael cyswllt gydag ambell i brosiect neu weithgaredd. Mae gweithio ar raglen Arfor wedi amlygu bod cyfleoedd i wneud defnydd o adnoddau ar draws y maes adfywio a datblygu'r economi i ychwanegu gwerth i weithgareddau mentrau iaith. Mae nifer o raglenni ariannu ac adnoddau cymunedol fyddai yn croesawu cyfrannu i'w amcanion. Trwy brif-ffrydio amcanion Hunaniaeth mewn gwasanaethau a rhaglenni megis Leader, mentrau canol tref, mentrau bwyd, gwasanaeth celfyddydau a'r gwasanaeth llyfrgell, gallent i gyd fod yn arloesi ac yn cyfrannu at ddatblygiad yr iaith.

- **Pecynnau cyflwyno'r Gymraeg** – trwy brofiad Arfor, gwelwyd eto fod rhai ardaloedd yn llawer mwy rhagweithiol yn cyflwyno mewnfudwyr; nid yn unig trigolion ond hefyd busnesau newydd i'r Gymraeg a'r diwylliant lleol. Yn amlwg byddai oblygiadau cost o wneud hyn, ond mewn rhai ardaloedd defnyddiwyd arian Mentrau Iaith i fod yn targedu mentrau a chynnig profiadau trochi mewn Cymraeg gyda chyfraniad tuag at adnoddau i hyrwyddo'r Gymraeg i fusnesau. Byddai'r camau yma hefyd yn ceisio dylanwadu ar berchnogion cyn iddynt wneud penderfyniadau buddsoddi allweddol er mwyn sicrhau fod yr iaith yn amlwg cyn i unrhyw gais cynllunio gael ei gyflwyno.

- **Egwyddorion twristiaeth** - mae Cyngor Gwynedd yn y broses o adolygu ei egwyddorion twristiaeth gyda'r bwriad o ymgynghori dros y misoedd nesaf a mabwysiadu gweledigaeth newydd erbyn yr hydref. Mae'r egwyddorion newydd yn rhoi pobl Gwynedd yn ganolog i'n ffordd newydd o feddwl am dwristiaeth ac fel rhan o hynny dathlu, parchu a gwarchod ein cymunedau, iaith a'n diwylliant yn un o'r egwyddorion craidd. Mae cyfle i wneud mwy a chydweithio gyda busnesau a mentrau ar draws Gwynedd i fod yn lysgenhadon i hyrwyddo'r iaith fel cyfrwng byw sydd yn rhan o'n diwylliant. Drwy hyrwyddo'r iaith, mae cyfle hefyd i gyflwyno gwybodaeth am gyfleoedd i ddysgu a defnyddio'r Gymraeg yn lleol neu yn rhyngwladol gan amlygu llwyfannau ar gyfryngau cymdeithasol fyddai'n cynnal yr anogaeth wedi i ymwelwyr adael yr ardal. Mae'r twf aruthrol a welwyd yn nefnydd Duolingo ar gyfer dysgu'r Gymraeg yn ystod 2020 yn amlwg yn dangos bod potensial i fanteisio ar y diddordeb hwnnw.
  https://www.bbc.co.uk/cymrufyw/55346962